



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 695A2013

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Roedd y tîm a fu'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Richard Harries, Dave Thomas, Matthew Coe a Carol Moseley.

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio cyfrifon	9
Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ac rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater	10
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	13
Er gwaethaf y camau breision a gymerir i gau'r bwloch ariannol presennol a'i weithdrefnau rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn cadarn a welwyd yn y gorffennol, mae rhagamcanion cyfredol yn dynodi nad yw'r Bwrdd Iechyd yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2013-14	13
Mae trefniadau wedi parhau i aeddfedu i gefnogi systemau llywodraethu effeithiol ac mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai trefniadau ymhellach a bu cynnydd mewn rhai meysydd yn araf. Hefyd, mae angen gwneud mwy i atgyfnerthu gallu ac adnoddau sefydliadol ac ymgorffori dysgu sefydliadol yn llawn.	15
Mae fy ngwaith ar berfformiad wedi nodi, er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella ei ddefnydd o adnoddau, mae angen cyflymu hyn mewn rhai meysydd ac mae angen gwneud gwelliannau o ran perfformiad gofal heb ei drefnu a mynediad amserol i wasanaethau	28
<b>Atodiadau</b>	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	35
Ffi archwilio	37
Gwaith cyfrifon ariannol: blaenoriaethau archwilio	38

# Adroddiad cryno

---

## Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Ionawr 2014. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ac rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
  - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
  - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
  - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad.

- 
7. Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi arbed £21.4 miliwn a llwyddodd i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ar ôl derbyn £10 miliwn o arian anghylchol ychwanegol ym mis Tachwedd 2012 gan Lywodraeth Cymru er mwyn rheoli'r pwysau ar wasanaethau. Cafwyd tanwariant o £141,000 yn erbyn terfyn adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Hefyd, darparodd froceriaeth adnoddau gwerth £2.5 miliwn i Lywodraeth Cymru yn 2012-13 a bydd yn cael y swm hwnnw yn ôl yn 2013-14. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei derfyn adnoddau, roedd ei farn ar reoleidd-dra yn ddiamod.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Aseiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr. Ar sail y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliad bod trefniadau sy'n cefnogi systemau llywodraethu da, sicrwydd ansawdd a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau wedi parhau i esblygu, ond mae angen gwneud rhagor o welliannau mewn rhai agweddau pwysig ac mae'r gwaith o fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14 yn dal i fod yn her fawr. Mae'r gwaith hwn, ynghyd ag adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol, wedi arwain at y casgliadau canlynol:

Er gwaethaf y camau breision a gymerir i gau'r bwlch ariannol sy'n weddill a'i weithdrefnau rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn cadarn a welwyd yn y gorffennol, mae rhagamcanion cyfredol yn dynodi nad yw'r Bwrdd Iechyd yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2013-14

9. Er gwaethaf bwlch ariannol o £38.6 miliwn ar ddechrau 2012-13, llwyddwyd i gyflawni targedau ariannol o ganlyniad i reolaeth gyllidebol a phroses rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn dda. Gwnaed arbedion o £21.4 miliwn a chyda £10 miliwn o arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy ac erys risgiau sylweddol o ran yr ystad, cyfarpar a phennu cyllidebau cytbwys.
10. Er i'r Bwrdd Iechyd gael arian ychwanegol yn 2013-14 a nodi iddo leihau costau a gwneud arbedion pellach yn ystod y flwyddyn, fel y saif ar hyn o bryd, nid yw'n debygol o fantoli'r gyllideb yn 2013/14.

---

Mae trefniadau i gefnogi systemau llywodraethu effeithiol wedi parhau i aeddfedu ac mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai trefniadau ymhellach a bu cynnydd mewn rhai meysydd yn araf. Hefyd, mae angen gwneud mwy i atgyfnerthu gallu ac adnoddau sefydliadol ac ymgorffori dysgu sefydliadol yn llawn.

**11.** Nododd fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd y canlynol:

- mae'r Bwrdd lechyd wedi pennu ei amcanion strategol, mae'n integreiddio rhaglenni newid strategol ac mae'n datblygu diwylliant gwella;
- mae'r tîm gweithredol wedi ymateb i a rheoli pwysau a heriau sylweddol yn ystod y flwyddyn, ond ymddengys fod gallu ac adnoddau sefydliadol dan bwysau ac efallai y bydd newidiadau strwythurol posibl yn creu rhywfaint o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn y byrdymor;
- mae dynameg y Bwrdd yn parhau i esblygu ac mae newidiadau i weinyddiaeth y Bwrdd ynghyd â phrosesau craffu a herio da wedi gwella ei effeithiolrwydd;
- ceir gwelliannau ym meysydd perfformiad a rheoli risg, ond nid yw archwiliadau clinigol eto'n cyfrannu'n llawn at y system sicrwydd;
- mae gwybodaeth reoli wedi'i mireinio'n sylweddol ond, ar hyn o bryd, erys bylchau allweddol o ran gofal sylfaenol, cymuned a phrofiad cleifion;
- er bod y rhan fwyaf o reolaethau data wrth gefn ar waith, nid yw newidiadau i weithdrefnau wrth gefn bob amser yn cael eu cytuno a'u cyfleu'n ffurfiol ac nid yw'r cofnod o brofion Adfer ar ôl Trychineb rheolaidd yn gyflawn;
- mae'r Bwrdd lechyd yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant o wrando a dysgu cadarnhaol, ond mae angen gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig a systematig er mwyn ymgorffori dysgu sefydliadol;
- mae'r Bwrdd lechyd yn ymrwymedig i atgyfnerthu trefniadau sicrhau ansawdd a diogelwch ac mae'n cydnabod bod angen gwella rhai agweddau ar drefniadau ymhellach;
- mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll.

---

Mae fy ngwaith ar berfformiad wedi nodi, er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella ei ddefnydd o adnoddau, mae angen cyflymu hyn mewn rhai meysydd ac mae angen gwneud gwelliannau o ran perfformiad gofal heb ei drefnu a mynediad amserol i wasanaethau

**12.** Mae'r canfyddiadau allweddol o'm hadolygiad o ddefnydd y Bwrdd Iechyd o adnoddau fel a ganlyn:

- Mae gwaith partneriaeth ac ymgysylltu yn parhau i ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol, ond bu cynnydd mewn perthynas ag ymdrin â rhai agweddau ar gynllunio a rheoli'r gweithlu yn araf.
- Yn seiliedig ar adolygiad o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, mae perfformiad o ran effeithlonrwydd ac ansawdd yn gymaradwy â gweddill Cymru, er bod angen gwella o ran cael mynediad amserol i wasanaethau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull strategol o reoli presenoldeb ond mae lefelau salwch yn uchel ac mae angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn gostwng cyfraddau absenoldeb, sicrhau bod mwy o ffocws ar bresenoldeb a lles, a chynyddu hyder gweithredol mewn data.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ad-drefnu gwasanaethau cymunedol ond, ar hyn o bryd, nid yw'r gwaith o gynllunio gallu ac adnoddau na chynnwys rhanddeiliaid yn ddigon effeithiol i gefnogi llai o alw am wasanaethau aciwt a gwelliannau cynaliadwy o ran perfformiad gofal heb ei drefnu.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda fyrdymor glir ar gyfer rhagnodi gofal sylfaenol ac mae ei drefniadau o ran rhagnodi cymorth wedi'u rheoli'n dda. Fodd bynnag, mae'r ffaith na cheir cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cyfyngu ar y potensial i sicrhau ffocws i'r defnydd o adnoddau fel y gellir achub ar gyfleoedd clir i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi.

**13.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Yr adroddiad hwn

14. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.
15. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
  - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwiadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
  - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
16. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
  - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
  - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
  - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
  - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
17. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn [Atodiad 1](#).
18. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
  - archwilio cyfrifon;
  - trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.



- 
19. Rhydd **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.
  20. Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y gwaith cyfrifon ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2013 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

21. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
22. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
  - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
23. Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
24. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
  - amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
  - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

---

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ac rwyf wedi rhoi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol 2012-13, ond wrth wneud hynny, rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

25. Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y terfyn amser cytûn sef 3 Mai 2013 ac roeddent o safon uchel. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac roedd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Mae'r amcangyfrifon sylweddol a gafodd eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf â chroniadau (gwariant gofal sylfaenol a chyflog gwyliau) a darpariaethau (Gofal Iechyd Parhaus, esgeulustod clinigol, anafiadau personol ac eraill). Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Ni chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
26. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 3 Mehefin 2013. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

#### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Darpariaethau Gofal Iechyd Parhaus	Nodwyd gwallau yn y gronfa ddata hawliadau, a reolir gan BILI Powys, a arweiniodd at orddatganiad wedi'i allsod o £203,000 mewn perthynas â darparu gofal iechyd parhaus a'r rhwymedigaeth gysylltiedig wrth gefn o £201,000. O ystyried amlygiad hawliadau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r ddarpariaeth, roedd rheolwyr o'r farn bod y symiau a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol drafft yn dal i fod yn rhesymol ac ni wnaed unrhyw newidiadau. Nid effeithiwyd ar y farn archwilio.
Balansau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Gan fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu risgiau ariannol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru â holl fyrddau iechyd lleol Cymru, mae angen sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o'r archwiliad o'r Pwyllgor hwnnw yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol pob bwrdd iechyd lleol. Cafwyd cadarnhad gan y tîm a fu wrthi'n archwilio Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru nad oedd unrhyw faterion wedi codi o'i archwiliad o'r Pwyllgor a oedd yn effeithio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Cronni cyflog gwyliau	Daethom i'r casgliad fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cronniad hwn yn rhesymol. Fodd bynnag, nodwyd achosion lle'r oedd y cyflogai wedi datgan y gwyliau nas cymerwyd ganddo mewn oriau, ond cofnodwyd hyn fel diwrnodau wrth gyfrifo'r cronniad. Petai'r gwall a welwyd yn y sampl yn cael ei ailadrodd ym mhob rhan o'r gweithlu, byddai'r cronniad wedi'i orddatgan £301,000. Cafodd y cronniad ei ddiwygio yn y datganiadau ariannol archwiliedig terfynol.

27. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2013, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
  - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
28. Mae fy archwiliad ar wahân o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol hefyd wedi'i gwblhau. Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd i'r Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ar 12 Medi 2013 a rhoddais farn ddiamed ar y datganiadau ariannol hynny ar 7 Hydref 2013.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

29. Wrth ystyried yr amgylchedd rheolaeth fewnol, rwy'n asesu trefniadau sy'n cynnwys rheolaethau lefel uchel dros y prif systemau cyfrifyddu a rheolaeth gyllidebol, gwaith a rôl y gwasanaeth archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n chwarae rhan amlwg yn adolygu ac yn cryfhau'r amgylchedd rheolaeth fewnol.
30. Cafwyd gennyf fod y rheolaethau'n gweithio mor effeithiol ag y bwriadwyd ac felly roedd modd dibynnu arnynt wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
31. Yn dilyn fy adolygiad o Wasanaeth Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd wedi cyrraedd *Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru* a bod rhai meysydd allweddol lle mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Cafodd y Siarter Archwilio Mewnol newydd ei mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2013 ac mae datblygiadau arfaethedig eraill eisoes ar waith a fydd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol, ar gyfer Cymru gyfan.

- 
- 32.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn cefnogi barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw'r gwaith hwn yn gyfystyr ag asesiad o'r trefniadau archwilio mewnol o dan Safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o drefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'r asesiad hwn yn ehangach na'r gwaith y mae archwilwyr allanol yn ei wneud er mwyn dibynnu ar waith archwilio mewnol neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

**Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad**

- 33.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd rhai mân-feysydd i'w gwella yn ystod yr archwiliad a gwnaed argymhellion i'r rheolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.
- 34.** Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

**Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi arbed £21.4 miliwn a llwyddodd i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ar ôl derbyn arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn rheoli'r pwysau ar wasanaethau**

- 35.** Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £82 miliwn o arian anghylchol ychwanegol er mwyn galluogi'r GIG i reoli pwysau cyfredol a chynnal ansawdd gofal. Cafodd y Bwrdd Iechyd £10 miliwn o hyn, a gyfrannodd at sefyllfa diwedd y flwyddyn ragamcanol ddiwygiedig ym mis wyth sef mantoli'r gyllideb.
- 36.** Ar 5 Mawrth 2013, ysgrifennodd Prif Weithredwr GIG Cymru at Brif Weithredwyr cyrff y GIG i egluro na fyddai mwy o arian ar gael gan Lywodraeth Cymru ac y byddai BILlau a oedd yn methu â chyflawni eu targedau yn wynebu sefyllfa cymhwys cyfrifon ac yn destun gweithdrefnau uwchgyfeirio.
- 37.** Cafwyd tanwariant o £141,000 yn erbyn terfyn adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Hefyd, darparodd froceriaeth adnoddau gwerth £2.5 miliwn i Lywodraeth Cymru yn 2012-13 a bydd yn cael y swm hwnnw yn ôl yn 2013-14. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei derfyn adnoddau, roedd ei farn ar reoleidd-dra yn ddiamod.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 38.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar lywodraethu ansawdd a chadernid trefniadau asesu profiad cleifion/defnyddwyr;
  - defnydd penodol o waith adnoddau ar reoli presenoldeb, gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig, rhagnodi gofal sylfaenol a pherfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth allweddol ar gyfer effeithlonrwydd gwasanaethau, eu hansawdd a mynediad iddynt.
- 39.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Er gwaethaf y camau breision a gymerir i gau'r bwlch ariannol presennol a'i weithdrefnau rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn cadarn a welwyd yn y gorffennol, mae rhagamcanion cyfredol yn dynodi nad yw'r Bwrdd lechyd yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2013-14

Er gwaethaf bwlch ariannol ar ddechrau 2012-13, llwyddwyd i gyflawni targedau ariannol ar gyfer y flwyddyn honno o ganlyniad i reolaeth gyllidebol a phroses rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn dda. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy ac erys risgiau sylweddol o ran yr ystad, cyfarpar a phennu cyllidebau cytbwys.

- 40.** Yn erbyn cefndir setliadau ariannol arian parod gwastad ac arian ychwanegol anghylchol yn 2011-12, roedd gan y Bwrdd lechyd reolaethau yn ystod y flwyddyn effeithiol ar gyfer pennu'r gyllideb. Derbyniodd y Bwrdd fersiynau amrywiol o Gynllun Adnoddau drafft 2012-13 ar ddechrau 2013, ond nid oedd Cynllun Adnoddau terfynol 2012-13 yn gytbwys ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

- 
41. Roedd cyfanswm y bwlch ariannol ar gyfer 2012-13 yn £38.6 miliwn, y nodwyd £24.4 miliwn o arbedion yn ei erbyn, a chafodd y bwlch hwn ei gofnodi'n gyson. Cafodd canran uchel - 88 y cant neu £21.4 miliwn - o'r targed arbedion ei chyflawni. Cafodd gweddill y bwlch ariannol ei gau drwy fesurau untro eraill, enillion cyfrifyddu ac arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Felly, er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei dargedau ariannol ar gyfer 2012-13, nid yw hon yn sefyllfa ariannol gynaliadwy wrth fynd ymlaen.
  42. Mae cyfanswm yr arian cyfalaf wedi gostwng 42 y cant dros y tair blynedd diwethaf o £64 miliwn i £37 miliwn. O fewn hyn, mae'r arian cyfalaf dewisol y gall y Bwrdd Iechyd ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau amhenodol wedi lleihau £2.2 miliwn (20 y cant) i £8.4 miliwn yn 2012-13. Tra bod targedau terfyn Adnoddau Cyfalaf wedi cael eu cyflawni o flwyddyn i flwyddyn, erys risgiau sylweddol o ran adnoddau i ymdrin â'r lefel uchel o waith cynnal a chadw y mae angen ei wneud o hyd a phrynu asedau newydd (cyfarpar meddygol yn bennaf).

Ar ôl derbyn arian ychwanegol a nodi cyfleoedd pellach i leihau costau a gwneud arbedion, fel y mae ar hyn o bryd, ni fydd y Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb yn 2013/14 heb gael rhyw fath o effaith andwyol ar y broses o ddarparu gwasanaethau a pherfformiad

43. Yn 2013-14, derbyniodd gyrff y GIG yng Nghymru setliadau arian parod gwastad unwaith eto nad oeddent yn cynnwys yr arian anghylchol ychwanegol a gafwyd yn 2012-13. Mae arian cyfalaf dewisol y Bwrdd Iechyd wedi lleihau £0.7 miliwn arall i £7.7 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun ariannol ar gyfer 2013-14 yn un cytbwys ac mae'r diffyg cychwynnol, ar ôl nodi arbedion, yn gwaethygu bob blwyddyn: £28 miliwn ar gyfer 2013/14 o gymharu â £15 miliwn yn 2012/13 ac £20 miliwn yn 2011-12. Tyfodd y bwlch ariannol hwn yn sylweddol o £28 miliwn i £32.5 miliwn yn ystod y flwyddyn am fod Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddatblygu gallu ac adnoddau i ymdrin â phwysau'r gaeaf yn 2013-14.
44. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol arian anghylchol, ychwanegol o £150 miliwn ar gyfer y GIG yng Nghymru. Cafodd y Bwrdd Iechyd £24.55 miliwn o'r arian ychwanegol hwn, gyda £20.5 miliwn ohono yn arian nas ymrwymwyd, a wnaeth leihau'r bwlch ariannol o £32.5 miliwn i £12 miliwn.
45. Nodwyd arbedion/leihad mewn costau ychwanegol o £6 miliwn hyd yma sy'n cynnwys tua £2 filiwn o fesurau risg uchel. Caiff rhagor o waith ei wneud i weld sut y gall y bwlch ariannol sy'n weddill o £6 miliwn gael ei gau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu'r effaith ar wasanaethau'n ofalus cyn ymrwymo i wneud arbedion pellach.

---

Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau rheoli ariannol yn ystod y flwyddyn cadarn o hyd ac mae'n datblygu gwell cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol a nodau ehangach moderneiddio gwasanaethau, a ategir gan gynllun tymor canolig cadarn

46. Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaethau cadarn ar waith o hyd ar gyfer gwaith monitro cyllidebol yn ystod y flwyddyn ac mae'n gweithredu gwelliannau i'r gweithdrefnau rheoli cyllidebol a'r prosesau monitro hyn gan ddilyn arfer da Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Mae uwch aelodau o staff cyllid yn parhau i gynnal cyfarfodydd misol â chyfarwyddiaethau ac ardaloedd allweddol er mwyn monitro'r broses gyflenwi yn erbyn targedau arbed unigol. Cyflwynir adroddiadau misol i'r Bwrdd Gweithredol a Llywodraeth Cymru, a chyflwynir adroddiadau deufisol i'r Bwrdd, sy'n parhau i fod yn gyson ac wedi'u paratoi'n dryloyw.
47. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig tair blynedd, y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo cyn rhoi rhyddid ariannol i'r Bwrdd Ariannol ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2014/15 i 2016/17. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cymorth allanol i gryfhau ei drefniadau cynllunio strategol fel bod y cynllun ariannol tymor canolig yn gadarn, yn gytbwys, ac nad yw'n dibynnu gormod ar arian ychwanegol neu fesurau anghylchol byrdymor.
48. Mae angen gwneud rhagor o waith i gysylltu gwaith cynllunio ariannol, gwasanaeth a gweithlu fel bod effaith lawn y dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau yn Rhaglen De Cymru - pan fyddant yn hysbys - yn gallu cael eu deall a'u rheoli. Fodd bynnag, mae newidiadau gwasanaeth ehangach Rhaglen De Cymru a 'Newid er Gwell' yn cynnig y cyfle i ddyrannu sail sero i'r cyllidebau sydd eu hangen ar gyfer y gwasanaethau wedi'u hailfodelu.

Mae trefniadau i gefnogi systemau llywodraethu effeithiol wedi parhau i aeddfedu ac mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai trefniadau ymhellach a bu cynnydd mewn rhai meysydd yn araf. Hefyd, mae angen gwneud mwy i atgyfnerthu gallu ac adnoddau sefydliadol ac ymgorffori dysgu sefydliadol yn llawn.

49. Y llynedd, nodais fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal cyfeiriad teithio cadarnhaol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan a chydabyddiaeth fod angen parhau i atgyfnerthu rhai agweddau ar reolaeth fewnol. Mae tystiolaeth o waith ymrwymedig a rhagweithiol i ddatblygu trefniadau ymhellach eleni. Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd a dengys ddull didwyll a hunanfeirniadol o adolygu ei drefniadau a'i berfformiad. Rwyf hefyd wedi nodi dull datblygol o flaengynllunio a ffocws cynyddol ar atebolrwydd.

- 
50. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu rhai heriau gan gynnwys sicrhau bod digon o allu ac adnoddau gan y sefydliad i gyflawni gwelliannau mewn modd rhesymol a pharhaus a sicrhau bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn unol â'r bwriad ym mhob rhan o'r sefydliad. Mewn rhai meysydd, fel rheoli pryderon, ni welwyd gwelliannau yn ddigon cyflym.
51. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y sefyllfa hon ac yn ymrwymedig i ymdrin â'r heriau hyn. Mae hefyd yn cydnabod y gall fod rhai risgiau a rhywfaint o ansefydlogrwydd byrdymor wrth iddo gyflwyno atebion hirdymor, cynaliadwy. Crynhoir fy nghanfyddiadau mewn mwy o fanylder isod.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu ei amcanion strategol, mae'n integreiddio rhaglenni newid strategol ac mae'n datblygu diwylliant gwella**

52. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ac mae'n parhau i fireinio ei gynllun busnes tair blynedd ar gyfer 2013/14 - 2015/16 ac mae'n cydnabod bod hyn yn gyfle i sicrhau gwell cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol, gweithlu, gallu ac adnoddau a gwasanaethau. Cyflwynir nodau ac amcanion sefydliadol yn y cynllun a thrawsnewidiad sy'n allweddol o ran cyflawni gweledigaeth strategol a gwella gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy.
53. Mae rhaglen 'Newid er Gwell' y Bwrdd Iechyd wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac fe'i hehangwyd i gwmpasu'r holl raglenni newid strategol o fewn y Bwrdd Iechyd. Parheir i weithio'n agos gyda phartneriaid, ceir ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid a rheolir newid yn weithredol. Mae hyn, ac ymrwymiad clir gan y Bwrdd i lywio newidiadau cadarnhaol, wedi helpu i weithredu newidiadau strategol i wasanaethau yn gyflymach ac mewn modd adeiladol.
54. Datblygwyd fframwaith i integreiddio'r gyfres uchelgeisiol o raglenni newid strategol yn well. Hefyd, sefydlwyd Bwrdd Cyflenwi 'Newid er Gwell' yn ddiweddar er mwyn gwella'r broses o oruchwylio a chydgysylltu pob rhaglen a phrosiect newid gan reolwyr. Rhydd y fethodoleg 'Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus' a gyflwynwyd y llynedd ddull strwythuredig o reoli rhaglenni a gweithredir proses cychwyn prosiectau ffurfiol. Fodd bynnag, mae rhai risgiau ynghlwm wrth amserlenni cychwyn prosiect hirfaith ac mae angen i'r trefniadau ar gyfer adrodd i'r Bwrdd gael eu hegluro ymhellach. Hefyd, mae angen sicrhau bod ffrydiau gwaith rhyngddibynnol yn cael eu cysoni a'u cydgysylltu'n llawn.



- 
- 55.** Caiff rhaglen gomisiynu ei sefydlu i ddarparu dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a sail dystiolaeth gadarn i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a modelau clinigol yn y dyfodol. At hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant gwella drwy ei brosesau newid strategol a gwella gwasanaethau. Caiff rhaglen 'Arloesedd, Cymorth a Gwyddor Gwelliant'<sup>1</sup> (ISIS) ei datblygu er mwyn helpu i ategu newidiadau strategol â ffocws gwella ansawdd. Ymhlith y ffrydiau gwella eraill mae gwaith ar lwybrau cleifion a datblygu dulliau gweithredu 'darbodus'.

**Mae'r tîm gweithredol wedi ymateb i a rheoli pwysau a heriau sylweddol yn ystod y flwyddyn, ond ymddengys fod gallu ac adnoddau sefydliadol dan bwysau ac efallai y bydd newidiadau strwythurol posibl yn creu rhywfaint o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd yn y byrdymor**

- 56.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu nifer o heriau yn 2013, gyda phwysau parhaus ar gyllid a gwasanaethau, a bu angen ymdrin â nifer o faterion o ran ansawdd a diogelwch a ddaeth i'r amlwg. O ganlyniad, rhoddwyd pwysau aruthrol ar y tîm gweithredol ac ysgrifennydd y bwrdd, ar adeg pan roedd angen i'r Prif Weithredwr gefnogi Bwrdd Iechyd arall (Mehefin-Hydref 2013).
- 57.** Ymdriniwyd â'r pwysau hyn yn dda ar y cyfan ac maent wedi gostwng i raddau ar ôl i'r Prif Weithredwr ddychwelyd i'r Bwrdd Iechyd yn llawn amser. Ceisiwyd mewnbwn allanol i gefnogi elfennau allweddol o waith gwella hanfodol yn ystod y cyfnod. Darparodd hyn fynediad i arbenigedd, gan ychwanegu at allu ac adnoddau sefydliadol a sicrhau momentwm mewn meysydd critigol fel gwella gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, amharwyd ar y gallu i ddatblygu rhywfaint o waith pwysig, fel y fframwaith atebolrwydd diwygiedig, gan olygu bod cynnydd yn arafach na'r disgwyl.
- 58.** Daeth swydd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag yn ystod y flwyddyn a bu angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (sydd hefyd yn Brif Swyddog Gweithredu) er mwyn cefnogi gwaith datblygu gofal sylfaenol. Gwnaed trefniadau dros dro a defnyddiwyd secondiadau mewnol i gyflenwi a chefnogi'r rôl weithredol, ond mae hyn wedi ymestyn gallu ac adnoddau'r tîm nyrsio canolog ac o fewn rhai strwythurau ardal. Hefyd, mae'r amrywiaeth o ran aeddfedrwydd a gallu ac adnoddau gweithredol timau rheoli ardal/cyfarwyddiaethau yn lleihau'r graddau y gall y tîm gweithredol ddirprwyo materion yn sylweddol, gan ychwanegu pwysau ar yr uwch dîm arwain.

---

<sup>1</sup> Mae ISIS yn golygu Arloesedd, Cymorth a Gwyddor Gwelliant. Mae hon yn rhaglen gwella ansawdd systematig sydd wedi'i chynllunio ac mae'n gweithredu ar sail tystiolaeth er mwyn galluogi perfformiad sefydliadol parhaus. Rôl ISIS fydd helpu pobl i ddeall gwyddor gwelliant er mwyn cyflawni diben y Bwrdd Iechyd: 'Gwella iechyd ein cymuned a darparu gofal iechyd effeithiol ac effeithlon lle mae ein cleifion a'n defnyddwyr yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael gofal.'

- 
- 59.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysebu swyddi gweithredol y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Meddygol (a lenwyd dros dro ers blwyddyn). Mae angen llenwi'r swyddi hanfodol hyn heb unrhyw oedi diangen. Mae'n gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd y cyfle i ailystyried cyfrifoldebau llywodraethu clinigol er mwyn sicrhau mwy o ffocws ac eglurder iddynt, er enghraifft, bydd rôl y Cyfarwyddwr Nyrsio bellach yn cynnwys cyfrifoldeb penodol am brofiad cleifion. Bwriedir cynnal adolygiad o gylchoedd gwaith gweithredol ehangach a dylai hyn ystyried ehangder a chynaliadwyedd rolau a chyfrifoldebau gweithredol presennol a sut maent yn cydblethu.
- 60.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried adolygu strwythurau i atgyfnerthu trefniadau rheoli safleoedd ysbytai, llywio newidiadau strategol a datblygu rhwydweithiau cymunedol. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn barod i reoli unrhyw ansicrwydd ac ansefydlogrwydd byrdymor a all ddeillio ohono.
- 61.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi yn y timau cyfathrebu canolog a phrofiad cleifion, ond ceir tyndra rhwng lleihau costau'n ganolog ym mhob swyddogaeth gorfforaethol a sicrhau bod gan dimau ddigon o adnoddau sy'n hanfodol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i asesu a blaenoriaethu fel bod digon o allu ac adnoddau i wneud popeth sydd ei angen yn y dyfodol.

**Mae dynameg y Bwrdd yn parhau i esblygu ac mae newidiadau i weinyddiaeth y Bwrdd ynghyd â phrosesau craffu a herio da wedi gwella ei effeithiolrwydd**

- 62.** Ers fy ngwaith y llynedd, diweddarwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sef 'System Sicrwydd'. Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu rheoli'n dda ac mae strwythur agenda newydd cyfarfodydd y Bwrdd yn darparu eglurder rhwng eitemau i'w nodi a'u trafod. Dilynrir 'rheolau' o ran amseroldeb, cyflawnrwydd a safonau papurau; er bod llawer o bapurau er gwybodaeth o hyd a bod rheoli hyd yr agenda yn dal i fod yn her. Ceir rhywfaint o le i nodi ymhellach wybodaeth bwysig ym mhapurau'r Bwrdd a'r sicrwydd a roddir i'r Bwrdd.
- 63.** Mae dynameg y Bwrdd yn dal i esblygu a chynhelir trafodaethau mwy strategol o gymharu â'r llynedd. Hefyd, ceir cynnydd nodedig mewn gwaith herio a chraffu da gan aelodau annibynnol. Mae rhaglen datblygu'r Bwrdd ar waith i gefnogi gwaith effeithiol ganddo, sy'n dangos bod ymrwymiad cadarnhaol i ddysgu a myfyrio. Hefyd, ceir mwy o ymrwymiad ymhlith aelodau'r Bwrdd i ymdrin â'r heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gan fod rhai cydberthnasau yn gymharol newydd, a bod angen gwneud penodiadau gweithredol newydd, bydd angen i'r Bwrdd sicrhau bod ei rôl yn glir a bod cydberthnasau adeiladol yn cael eu cynnal rhwng aelodau.
- 64.** Mae'r Cadeirydd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau a phrofiad yr aelodau annibynnol a newidiwyd cadeiryddiaeth rhai pwyllgorau o ganlyniad i hynny. Bwriedir cynnal adolygiad o bwyllgorau fel rhan o adolygiad llywodraethu ehangach er mwyn atgyfnerthu ymhellach y cydberthnasau rhwng pwyllgorau. Mae rhaglenni gwaith a logiau gweithredu ar waith a defnyddir proses hunanasesu gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn hunanasesu a gwella eu heffeithiolrwydd.

---

Ceir gwelliannau ym meysydd perfformiad a rheoli risg, ond nid yw archwiliadau clinigol eto'n cyfrannu'n llawn at y system sicrwydd

65. Datblygwyd Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd er mwyn egluro a diffinio atebolrwydd a chyfrifoldebau'n well ym mhob rhan o'r sefydliad ac er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei lywio gan y rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. Sefydliar adolygiadau misol o berfformiad cyfarwyddiaethau ac ardaloedd a arweinir gan y tîm gweithredol ac mae fy ngwaith yn 2013 wedi gweld newid o fonitro perfformiad i reoli perfformiad. Ceir bellach broses uwchgyfeirio glir a nodwyd yn y 'System Sicrwydd' a ddiweddarwyd yn ddiweddar, sy'n nodi'r camau i'w cymryd pan fo perfformiad islaw'r disgwyl.
66. Mae trefniadau rheoli risg yn parhau i gael eu hatgyfnerthu gan waith y Grŵp Rheoli Risg. Er bod cyfarwyddiaethau ac ardaloedd yn amrywio o ran aeddfedrwydd o hyd, mae cofrestrau risg lleol bellach yn ategu'r gofrestr risg gorfforaethol yn well ac mae gwaith i integreiddio a thriogli gwybodaeth am berfformiad a risg wedi dechrau.
67. Y llynedd, nodais y bu ymrwymiad o'r newydd i'r rhaglen archwilio clinigol genedlaethol a bod mwy o graffu ar y cynllun archwilio clinigol. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod gweithgarwch archwilio clinigol yn gysylltiedig ag amcanion a risgiau strategol neu ei fod yn gytbwys ar gyfer holl weithgareddau'r Bwrdd Iechyd. Erys y sefyllfa hon o hyd er bod fframwaith polisi clir wedi'i ddatblygu a cheir tîm archwilio clinigol sydd wedi ymgysylltu. Fel y cyfryw, erys lle i waith archwilio clinigol chwarae mwy o rôl wrth gefnogi sicrwydd y bwrdd. Hefyd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynnwys mwy o berchenogaeth glinigol mewn cynlluniau archwilio clinigol lleol a gwella ymhellach gyfraddau cwblhau archwiliadau er mwyn cyfrannu at welliannau clinigol.

Mae gwybodaeth reoli wedi'i mireinio'n sylweddol ond, ar hyn o bryd, erys bylchau allweddol o ran gofal sylfaenol, cymuned a phrofiad cleifion

68. Mae gwybodaeth reoli a'r ffordd y'i cofnodir wedi elwa o waith datblygu parhaus eleni. Mireiniwyd adroddiadau ar berfformiad y Bwrdd yn sylweddol a nododd ein harolwg fod aelodau'r Bwrdd o'r farn bod gwybodaeth ar ei ffurf newydd yn fwy eglur. Gan ddefnyddio cymysgedd o gyd-destun, gwybodaeth ansoddol a data, mae fformat newydd adroddiadau yn amlinellu'r canlynol:
  - Sut rydym yn ei wneud?
  - Sut rydym yn cymharu â chymheiriaid?
  - Beth yw'r prif feysydd risg?
  - Pa gamau gwella a gymerir a phryd y byddant yn dechrau dwyn ffrwyth?

- 
- 69.** Defnyddir data ar dueddiadau ac mae'r adroddiad ar berfformiad yn nodi'n glir berfformiad yn erbyn targedau ar gyfer mesurau cenedlaethol. Mae'r defnydd o dargedau lleol yn llai eglur ond mae'r ffaith y nodir rheolwyr arweiniol sy'n gyfrifol am gamau gweithredu yn gryfder cymharol o adroddiad y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, byddai meincnodi cymharol ehangach, monitro perfformiad rhaglenni, cyflenwi gan asiantaethau partner a'r defnydd o ragamcanion i bennu'r sefyllfa yn y dyfodol (ar gyfer galw, perfformiad a risg ariannol) yn atgyfnerthu proses adrodd y Bwrdd ymhellach.
- 70.** Mae gwybodaeth yn dal i ganolbwyntio ar ofal eilaidd yn fwy ac erys bylchau mewn gwybodaeth o ran profiad cleifion, gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau wedi'u comisiynu. Mae gwaith ar ddatblygu cardiau sgorio sylfaenol a chymunedol yn mynd rhagddo, er bod mwy i'w wneud i ddatblygu'r wybodaeth a roddir yn y meysydd hyn yn llawn.

Er bod y rhan fwyaf o reolaethau data wrth gefn ar waith, nid yw newidiadau i weithdrefnau wrth gefn bob amser yn cael eu cytuno a'u cyfleu'n ffurfiol ac nid yw'r cofnod o brofion Adfer ar Ôl Trychineb rheolaidd yn gyflawn. Mae angen i reolaethau ychwanegol yn y meysydd hyn gael eu datblygu a'u gweithredu.

- 71.** Mae eglurder o ran yr amrywiaeth o systemau TG sydd ar waith a nodir cyfrifoldeb am ddata wrth gefn yn glir. Fodd bynnag, fel BILLau eraill, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod rhai dyfeisiau meddygol electronig nas nodir ar hyn o bryd fel rhan o'r rhestr o systemau TG a threfniadau wrth gefn.
- 72.** Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer data wrth gefn ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd ac maent wedi'u cynnwys yn y feddalwedd wrth gefn a'r gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer pob system. Mae system wrth gefn briodol ar waith i raddau helaeth ond ni chaiff newidiadau i'r SOPs ar gyfer pob system eu cymeradwyo'n ffurfiol gan berchenogion y system, perchenogion y data na'r tîm TG ar hyn o bryd.
- 73.** Caiff y gweithdrefnau a'r prosesau wrth gefn eu monitro'n weddol dda er, ar hyn o bryd, nid oes rhestr lawn o brofion Adfer ar Ôl Trychineb fel rhan o waith cynnal a chadw system rheolaidd (h.y., creu systemau prawf). Felly, nid yw'n bosibl cadarnhau bod profion Adfer ar Ôl Trychineb yn cael eu rhedeg yn rheolaidd ar bob system.

---

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant gwranddo a dysgu cadarnhaol ond mae ymateb i gwynion mewn modd amserol yn broblematic ac mae angen gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig a systematig er mwyn ymgorffori dysgu sefydliadol

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wrando ar gleifion ac mae'n cydnabod gwerth llais y claf wrth gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau ond mae ganddo fwy i'w wneud i ddatblygu ac ymgorffori'n llawn ei ddull o nodi profiad y claf mewn modd systematig ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd**

74. Mae fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wrando ar gleifion ac mae'n cydnabod gwerth llais y claf wrth gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau. Mae profiad y claf yn un o raglenni newid strategol y Bwrdd Iechyd ac mae'n cynnwys nifer o brosiectau i ddatblygu'r broses o nodi a deall profiad cleifion.
75. Ceir uned profiad cleifion fach ond ymrwymedig iawn sy'n adnodd arbenigol ac yn llywio gwaith ar brofiad cleifion o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r uned yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal arolygon o brofiad cleifion i wardiau ac adrannau ac mae'n cefnogi'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau a chyflwyno adroddiadau arnynt ar gyfer gwaith cynllunio camau gweithredu ac adolygiadau misol o berfformiad cyfarwyddiaethau.
76. Yn ogystal ag arolygon pwrpasol a ddatblygwyd gan yr uned hon. Cyflwynwyd y 'prawf' ffrindiau a theulu yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Gorffennaf 2013 cyn ei gyflwyno'n ehangach ac mae fframwaith Cymru gyfan yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Mae mynediad Wi-fi bellach ar gael ym mhob ysbyty o fewn y Bwrdd Iechyd a rhydd y cyfle i ddatblygu arolygon ar-lein. Caiff y defnydd o 'Fesurau Canlyniadau a Gofnodir gan Gleifion' ei dreialu ar y cyd â Phrifysgol Abertawe ac mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu datblygu ei frand 'You Tell Us' er mwyn cynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a chael adborth ganddynt.
77. Ceir tua 8,000 o gysylltiadau â chleifion bob blwyddyn a chesglir barn cleifion mewn amrywiaeth o ffyrdd ond dim ond canran fechan o achosion cleifion a gwmpesir gan y gweithgarwch arolygu hwn ac mae'r canolbwyntio ar achosion ysbyty aciwt. Mae perchenogaeth o weithgarwch arolygu, cynllunio camau gweithredu, gweithredu newid a rhoi adborth i staff a defnyddwyr gwasanaethau yn dal i amrywio ar lefel ward ac adran er bod pocedi o arfer da. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod, er gwaethaf y gwaith cadarnhaol a wnaed yn ddiweddar, fod angen gwneud mwy i ddatblygu ac ymgorffori ei ddull o ddwyn ynghyd brofiad cleifion ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd yn llawn.

- 
78. Sefydlwyd fforwm profiad cleifion i graffu ar raglen newid strategol profiad cleifion a datblygu Tîm Profiad Cleifion a Gwelliant. Fodd bynnag, bu cynnydd yn arafach na'r disgwyl, sydd wedi peri rhwystredigaeth. Mae hefyd angen mwy o eglurder o ran y gydberthynas rhwng y rhaglen profiad cleifion a'r fforwm profiad cleifion, y dull strategol o ddylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, cynaliadwyedd a chydgyhyrachu, a rôl a chyfrifoldebau tîm yr uned profiad cleifion yn y dyfodol fel canolfan brosesu neu arweinydd gwaith ar brofiad cleifion. Bydd penodi Cyfarwyddwr Nyrsio newydd sydd â chyfrifoldeb penodol am brofiad cleifion yn darparu arweinyddiaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn a bydd angen monitro cynnydd.

**Mae fframwaith sefydliadol ar waith i reoli pryderon cleifion, ond erys materion sylweddol, gan gynnwys amseroldeb ymatebion i gwynion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â'r ôl-groniad presennol o gwynion a gwella'r strwythurau a'r trefniadau sy'n ategu'r gwaith o reoli cwynion a chydabu fod angen i'r gwaith hwn ddatblygu'n gyflym.**

79. Mae'r Adran Ymchwiliadau a Gwneud lawn am Gamweddau (DIR) yn goruchwyllo'r gwaith o reoli pryderon, digwyddiadau a hawliadau ac mae'n arwain ar bryderon a chwynion a ystyrir yn rhai 'melyn' neu 'goch'. Mae gan bob cyfarwyddiaeth ac ardal strwythurau llywodraethu lleol sy'n cynnwys arweinydd ar gyfer rheoli pryderon a chaiff cwynion a ystyrir yn rhai 'melyn' neu 'wyrdd' eu rheoli ar lefel lleol. Caiff is-grŵp Ymchwiliadau a Gwneud lawn am Gamweddau adroddiadau gan gyfarwyddiaethau ac ardaloedd ac yn ei dro mae'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch drwy Fforwm Ansawdd a Diogelwch.
80. Tra bod y trefniadau hyn yn darparu fframwaith sefydliadol i gefnogi'r gwaith o ymchwilio i bryderon a datblygu'r broses o weithredu canllawiau Unioni Pethau, mae angen mynd i'r afael â rhai materion sylweddol. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyhoeddi adroddiadau beirniadol yn flaenorol o ran y gwaith o reoli cwynion a digwyddiadau a cheir ôl-groniad cylchol o gwynion a phroblemau gydag amseroldeb ymatebion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i ymdrin â'r ôl-groniad o gwynion, gan newid cyfrifoldebau staff DIR a chyflwyno adnoddau ychwanegol dros dro er mwyn canolbwyntio ar gwynion. Er bod y fath gamau yn golygu yr ymdrinnir â'r ôl-groniad presennol yn gyflym, nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy. Ceisiwyd adolygiad a chynghor arbenigol ar strwythurau a threfniadau rheoli pryderon.
81. Mae niferoedd cynyddol a chymhlethdod 'achosion', nifer yr ymdrinwyr achos sydd ar gael ac amrywioldeb 'perchenogaeth' cyfarwyddiaethau/ardaloedd o weithdrefnau rheoli pryderon yn effeithio ar effeithiolrwydd DIR. Er bod tua 250 o reolwyr wedi cael eu hyfforddi ym maes Dadansoddi Achosion Sylfaenol, mae argaeledd rheolwyr hyfforddedig i gynnal ymchwiliadau yn peri oedi ac yn golygu bod ansawdd ymchwiliadau yn amrywio. Mae hyn yn cynyddu lefel 'ailweithio' DIR ac yn ychwanegu at oedi mewn ymateb.

- 
82. Gohiriwyd cynlluniau i ad-drefnu'r DIR o dan gynigion i ddatblygu Tîm Profiad Cleifion a Gwelliant er mwyn ystyried yr adolygiad presennol o DIR. Mae angen i gynlluniau manwl gael eu datblygu ar fyrder ar ôl cwblhau'r adolygiad o DIR a bydd angen iddynt egluro DIR a chydberthynas, cyfrifoldeb a gallu ac adnoddau cyfarwyddiaethau/ardaloedd. Mae cynigion i gyflwyno system frysbenneu glinigol er mwyn cefnogi datrysiadau anffurfiol mwy ymatebol yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen i'r model hwn gael ei ystyried yn fwy llawn yn erbyn rolau cymorth eraill, fel cyngor a chyswllt cleifion, a rôl y tîm profiad cleifion. Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio newydd yn chwarae rôl hanfodol wrth lywio'r gwelliannau hyn.
83. Mae polisïau unioni pethau ar waith, er bod ymwybyddiaeth staff o'r polisïau yn amrywio. Ni nododd staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin â chwynion a phryderon ac mae llawer yn dibynnu ar gyfarwyddyd 'ar dafod leferydd' gan gydweithwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio e-Datix i gofnodi digwyddiadau a gefnogir gan raglen hyfforddi wrth ei chyflwyno. Anogir staff i gofnodi gwallau, achosion y bu bron iddynt ddigwydd a digwyddiadau ond nodir ganddynt fod defnyddio Datix yn drafferthus, nid yw'r system yn hawdd ei defnyddio, ac mae diffyg adborth ar y camau a gymerir mewn perthynas â'r digwyddiadau a gofnodir yn eu digalonni. Nododd fy ngwaith ar ragnodi gofal sylfaenol (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) mai prin yw'r dystiolaeth o adroddiadau cyson a chadarn ar adweithiau andwyol i gyffuriau a digwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaeth.

**Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored er mwyn ymdrin â phryderon staff ond mae angen darparu gwell hyfforddiant er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella hyder staff yn y system**

84. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i greu diwylliant agored lle ceir parodrwydd i wrando, gydag arweinyddiaeth weithredol amlwg ac ymweliadau diogelwch cleifion. Nododd fy ngwaith cyfunol ar reoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) fod uwch reolwyr yn gefnogol ac yn deall pryderon a materion staff. Fodd bynnag, nododd Arolwg y GIG fod 42 y cant o staff yn anghytuno y gwnaiff uwch reolwyr weithredu ar ganlyniadau'r arolwg, sy'n dangos bod diffyg hyder mewn rheolwyr. Mae cynllun gweithredu ar waith i ymateb i'r arolwg staff, ond bydd newid mewn diwylliant a mwy o hyder yn cymryd amser.
85. Nododd fy ngwaith fod gwahaniaethau rhwng safleoedd ysbyty a thimau rheoli o ran hyder staff mewn codi pryderon ac y byddai eu pryderon yn cael eu datrys. Defnyddiwyd sesiynau atebolrwydd wythnosol ar gyfer staff nyrsio wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ddiweddar er mwyn codi ymwybyddiaeth a magu hyder, gyda chynnydd wedi'i nodi mewn pryderon anffurfiol.
86. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi'r gwaith o weithredu polisi Codi Pryderon (chwythu'r chwiban) Cymru gyfan drwy ddarparu hyfforddiant, sesiynau codi ymwybyddiaeth neu ganllawiau i reolwyr ar yr hyn sy'n gyfystyr â 'chwythu'r chwiban'. Rheolir y rhan fwyaf o faterion yn anffurfiol neu ymdrinnir â hwy o dan bolisïau eraill fel 'Urddas a Pharch'. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd Iechyd gasglu pryderon, dadansoddi tueddiadau neu ddiogelu unigolion rhag gwahaniaethu o dan y gyfraith.

---

**Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo fynd ati i ddysgu gwersi, gweithredu a thriogli gwybodaeth am brofiad cleifion mewn dull mwy systematig**

87. Mae'r Bwrdd yn agored i ddysgu gwersi er mwyn gwella ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion, gyda straeon cleifion yn cael eu hadrodd yn rheolaidd a gwaith i ddeall a gwella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau. Fodd bynnag, nid oedd aelodau'r bwrdd a ymatebodd i'n harolwg o'r farn eu bod yn cael gwybod barn cleifion yn llawn ac nid yw holl Aelodau'r Bwrdd yn gwbl hyderus ynghylch diwylliant dysgu cyfredol y sefydliad.
88. Un o'r prif feysydd gwella o'm gwaith y llynedd oedd gwella'r broses o ddysgu o gwynion a digwyddiadau a gwneud gwell cysylltiadau â gwaith i fesur profiad cleifion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd prin yw'r gwaith dadansoddi thematig canolog ar gyfer adborth, cwynion a digwyddiadau cleifion neu driongli'r mesurau profiad cleifion hyn. Mae hyn yn rhwystr i'r Bwrdd lechyd o ran meithrin safbwynt sefydliadol ehangach mewn perthynas â phrofiad cleifion a dysgu thematig, a gydnabyddir gan y Bwrdd lechyd ac y mae'n ymdrin ag ef.
89. Ceir enghreifftiau o ddysgu lleol ond nid yw'r rhain yn systematig ac ni chaiff gwersi eu rhannu'n rheolaidd rhwng wardiau ac adrannau, er gwaethaf cynlluniau gweithredu lleol niferus. Mae hyn wedi cyfrannu at rai enghreifftiau o ymddygiad andwyol ac mae angen i brosesau dysgu cyfredol gael eu symleiddio, gan sicrhau mwy o eglurder ynghylch y ffordd y caiff camau gweithredu eu gwerthuso a sut maent yn arwain at welliant.
90. Mae cynigion i sefydlu Tîm Profiad Cleifion a Gwelliant yn dangos bwriad y Bwrdd lechyd i ddatblygu dysgu sefydliadol, gan ddwyn ynghyd yr Adran Ymchwiliadau a Gwneud Iawn am Gamweddau (DIR) a'r Tîm Profiad Cleifion, er nad yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu datblygu'n llawn eto. At hynny, mae gallu ac adnoddau presennol yr Adran a'r Tîm yn cyfyngu ar eu gallu i gynnal dadansoddiad thematig, cefnogi dysgu sefydliadol a datblygu adroddiadau ward i fwrdd. Hefyd, mae angen i ffocws y dysgu ymestyn y tu hwnt i'r ysbyty aciwt.

**Mae'r Bwrdd lechyd yn ymrwymedig i atgyfnerthu trefniadau sicrhau ansawdd a diogelwch ac mae'n cydnabod bod angen gwella rhai agweddau ar drefniadau ymhellach**

**Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored sy'n canolbwyntio ar ansawdd ond nid yw wedi'i ymgorffori'n llawn o fewn y sefydliad eto**

91. Mae ansawdd a diogelwch yn rhan annatod o sicrwydd y bwrdd ac mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn ategu pwysigrwydd sylfaenol ansawdd. Mae'r Bwrdd lechyd yn cyfleu ac yn hyrwyddo diwylliant agored ac mae wedi gwella mynediad y cyhoedd i wybodaeth. Caiff cydbwysedd clir o faterion cadarnhaol a negyddol eu trafod yn agored yn y Bwrdd, gan gynnwys ymchwiliadau yn Ysbyty Tywysoges Cymru a'r adolygiad o lawdriniaethau cardiaidd yn Ysbyty Treforys.



- 
92. Mae'r Bwrdd yn craffu ar ei berfformiad ei hun yn erbyn Safonau Gwasanaethau Iechyd Cymru ac mae wedi asesu ei hun yn erbyn adolygiadau ansawdd y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad Francis ar Ymddiriedolaeth GIG Canol Swydd Stafford, a'r adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru sef '*Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*'.
93. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd pryderon ansawdd a diogelwch ynghylch gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru o ddifrif, gan sefydlu Rhaglen Ansawdd a Diogelwch ac iddi ffocws a chomisiynu Cynghrair Datblygu Ansawdd (AQuA) i gynnal adolygiad allanol o ansawdd a diogelwch yn yr ysbyty. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno methodoleg 'ddwys' AQua ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd pan fydd yr adolygiad yn Ysbyty Tywysoges Cymru wedi dod i ben. Mae'r adolygiad annibynnol ychwanegol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cael ei groesawu gan y Bwrdd Iechyd, er mwyn helpu i nodi ymhellach feysydd allweddol o gryfder y gellir adeiladu arnynt a meysydd risg posibl lle y gall fod angen gweithredu ymhellach.
94. Mae'r gwaith o ddatblygu a defnyddio sbardunau ansawdd wedi parhau ers fy ngwaith y llynedd, gyda rhywfaint o gynnydd wrth sefydlu system rhybuddion cynnar well pan fo risg i ansawdd gofal. Ategir y gwaith hwn gan ddadansoddiad ymchwiliadol o anghysondebau ymddangosiadol, datblygu mesur gofal a gwella cydymffurfiaeth â'r broses adolygu marwolaethau systematig yn sylweddol.
95. Mae strwythurau a threfniadau llywodraethu gweithredol ar waith er bod aeddfedrwydd trefniadau lleol a chryfder y ffocws ar lywodraethu ansawdd yn lleol yn amrywio. Er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, nid yw wedi'i ymgorffori'n gyson ym mhob cyfarwyddiaeth/ardal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei ffocws ar ansawdd fel rhan o adolygiadau misol lleol o berfformiad eleni, rhoddir cyflwyniadau cyfarwyddiaeth/ardal rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a buddsoddir mewn hyfforddiant datblygu arweinwyr a gwella ansawdd. Dylai'r camau hyn helpu i gefnogi'r gwaith o ymgorffori sicrwydd ansawdd a diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd.

### **Caiff trefniadau goruchwylio ansawdd eu mireinio o hyd ac, ar y cyfan, maent yn ddigonol i ategu'r gwaith o lywodraethu ansawdd**

96. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (AD) yn rhagweithiol, ceir lefelau presenoldeb da ac mae aelodau bwrdd annibynnol yn gweithredu system herio a chraffu gadarn. Dylai fformat newydd y cyfarfodydd helpu i wella'r broses o reoli'r agenda er bod hyn yn dal i fod yn her ar hyn o bryd. Cyflwynwyd mwy o ddisgyblaeth er mwyn gwella ansawdd y papurau a ddaw i law. Hefyd, gwelais dystiolaeth o ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad ochr yn ochr â ffynonellau eraill o sicrwydd, fel ymweliadau diogelwch cleifion ac ymweliadau arsylwi, i gadarnhau (neu herio) y modd y caiff gwybodaeth a pherfformiad eu dehongli a'u deall.

- 
97. Mae strwythur adroddiadau grŵp i'r Pwyllgor AD wedi cael ei fireinio a'i fapio ac mae'r rhan fwyaf yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor AD drwy Fforwm AD a arweinir gan y tîm gweithredol. Ceir tystiolaeth o gamau gweithredu cadarnhaol parhaus gan y Fforwm AD i sicrhau bod sicrwydd priodol yn dod o'r is-bwyllgorau, y grwpiau, a chyfarwyddiaethau/ardaloedd, ond nid yw aelodau'r Pwyllgor AD yn gwbl hyderus eto fod yr adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor AD yn adlewyrchu'r holl faterion perthnasol. Fel rhan o adolygiad cyffredinol o drefniadau llywodraethu a arweinir gan Gadeirydd y Bwrdd, mae Cadeirydd y Pwyllgor AD yn adolygu'r ffordd y mae'r pwyllgor hwn yn gweithredu ynghyd â chadernid data a dulliau adrodd.
98. Mae'r Pwyllgor AD yn adrodd ar ei weithgareddau ac yn dwyn materion o bwys i sylw'r Bwrdd, ond byddai defnydd mwy systematig o Ddatganiadau Sicrwydd yn atgyfnerthu'r gadwyn sicrwydd i'r Bwrdd. Caiff rolau'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor AD o ran craffu ar drefniadau a chraffu ar ansawdd a diogelwch yn y drefn honno eu hadolygu hefyd er mwyn sicrhau eglurder.

#### **Mae'r Bwrdd lechyd wedi atgyfnerthu adroddiadau ar berfformiad ansawdd a chydabu fod angen gwneud rhagor o welliannau**

99. Mae'r adroddiad ar berfformiad ansawdd wedi cael ei ailddylunio, gyda chymysgedd rhesymol o wybodaeth ansoddol a meintiol, a chipolwg ar yr hyn sydd wedi dylanwadu ar berfformiad ansawdd. Mae'r adroddiadau a gyflwynir ar sbardunau ansawdd yn dda ar y cyfan, ceir data amserol ac mae aelodau bwrdd yn hyderus ynghylch ansawdd y data ar y cyfan. Ceir defnydd rhesymol o brosesau dadansoddi tueddiadau ond prin yw'r gwaith meincnodi ac ni chaiff data ei ddadgrynhoi rhyw lawer.
100. Gall gwaith craffu gael ei wanhau gan swm y data a'i grynhoed. Gan gydnabod y risg hon, ystyrir sut y gall y Pwyllgor graffu'n fanylach ar berfformiad dangosyddion allweddol o fewn y nifer fawr o ddangosyddion a gaiff eu monitro. Wrth ddatblygu'r dull hwn o weithredu, mae gan y Pwyllgor gyfle i adeiladu ar ei brofiad diweddar o archwilio perfformiad yn fanwl wrth ddarparu gwybodaeth amserol am ryddhau cleifion.
101. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu metrigau ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol gan fod adroddiadau cyfredol yn canolbwyntio ar y gwasanaethau aciwt a ddarperir yn bennaf. Mae'r templed ar gyfer adroddiadau ansawdd yn annog nodi camau i wella perfformiad, sef cryfder dull gweithredu'r Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, mae angen canolbwyntio'n fwy ar gamau â therfyn amser penodol, y canlyniadau bwriadedig a ph'un a gyflawnwyd gwelliannau o ganlyniad i hynny.

---

**Darparodd y Datganiad Ansawdd Blynyddol a gymeradwywyd ym mis Medi 2013 adroddiad agored a di-flewyn-ar-dafod i'r cyhoedd. Rhydd ddyfnder ac mae'n hawdd ei ddarllen ond ceir rhai cyfleoedd i wella.**

- 102.** Ar y cyfan, nodais fod y Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) yn ddogfen groyw sy'n crynhoi amcanion a threfniadau ansawdd y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn agored ac yn onest ynghylch ei gryfderau a'i wendidau ac mae'n nodi'r meysydd lle nad yw wedi perfformio'n dda yn glir. Er yn hir, rhydd ddyfnder, mae'n hawdd ei ddarllen a cheir cydbwysedd da rhwng cyd-destun, testun a graffeg. Fel dogfen glir, mae'n haws i'r cyhoedd ei defnyddio.
- 103.** Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei risgiau allweddol i ansawdd yn glir, er ei fod yn nodi bod ganddo broses i wneud hynny. Ysgrifennir y DAB o safbwynt darparwr gwasanaeth a cheir rhai meysydd lle y gallai'r DAB gael ei wella, sy'n cynnwys:
- datganiad cliriach o fframwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd a'i effeithiolrwydd;
  - nodi elfennau dibynnol a chysylltiadau â phartneriaid a'r effaith ar ansawdd;
  - gwell cydbwysedd rhwng adrodd ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir o gymharu â gofal sylfaenol neu wasanaethau eraill a gomisiynwyd.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll**

- 104.** Ymarfer paru data sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac fe'i cynhelir bob dwy flynedd. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.
- 105.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2012. Cafodd y data eu paru a chyhoeddwyd y canlyniadau i'r cyrff dan sylw ym mis Ionawr 2013.
- 106.** Mae'r Bwrdd Iechyd ynghlwm wrth y Fenter ac yn gwneud cynnydd da. Arolygwyd pob adroddiad a ystyriwyd yn 'allweddol' a gwiriwyd pob 'pâr a argymhellwyd', ynghyd â nifer o barau eraill. Ni nodwyd unrhyw dwyll ond gwelwyd dau wall yn ymwneud â mewnbwn clercol, a gywirwyd bellach.

---

Mae fy ngwaith ar berfformiad wedi nodi, er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella ei ddefnydd o adnoddau, mae angen cyflymu hyn mewn rhai meysydd ac mae angen gwneud gwelliannau o ran perfformiad gofal heb ei drefnu a mynediad amserol i wasanaethau

Mae gwaith partneriaeth ac ymgysylltu yn parhau i ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol a cheir gwaith cynllunio ystadau strategol da o hyd, ond bu cynnydd mewn perthynas ag ymdrin â rhai agweddau ar gynllunio a rheoli'r gweithlu yn araf

**107.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu gwaith partneriaeth a rheoli ystadau ond er gwaethaf rhai camau a datblygiadau cadarnhaol, erys heriau o ran y gweithlu. Crynhoir y cynnydd hwn yn [Arddangosyn 2](#).

#### Arddangosyn 2

Mater	Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd
Gweithlu	<p>Er gwaethaf rhai camau a datblygiadau cadarnhaol, erys heriau tebyg o ran y gweithlu yn 2013, gan gynnwys yr angen i ymdrin â salwch, gwella cynlluniau gweithlu a hyfforddi a sicrhau bod rheolwyr wedi'u paratoi'n dda i arwain:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bellach caiff gwaith cynllunio'r gweithlu ei ddatblygu i ategu cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd;</li><li>• er bod oedi wrth wneud penderfyniadau ar Raglen De Cymru wedi effeithio ar gynlluniau gweithlu, mae angen iddynt gael eu hintegreiddio'n well o hyd â chynlluniau ariannol a newid strategol;</li><li>• yn gadarnhaol, caiff cynllun gweithlu gofal sylfaenol, gan gynnwys y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, ei ddatblygu;</li><li>• mae egwyddorion staffio craidd a bennwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio yn 2012 wedi'u cydnabod a buddsoddiwyd mewn staff nyrsio;</li><li>• er gwaethaf ymgyrch recriwtio ceir bylchau parhaus o fewn y gweithlu ar gyfer rhai proffesiynau/arbenigeddau (e.e adrannau achosion brys);</li><li>• mae cyfraddau arfarnu staff wedi gwella'n sylweddol ac mae'r bwrdd Iechyd bellach yn ystyried adolygu ansawdd arfarniadau fel y cam nesaf;</li><li>• buddsoddir mewn hyfforddiant arwain a gwella ond nid yw pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant statudol/gorfodol ac mae staff mewn rhai meysydd yn ei chael hi'n anodd cael hyfforddiant nad yw'n statudol;</li><li>• erys yr angen i ddatblygu sgiliau rheoli pobl a pharatoi rheolwyr gweithredol yn well ar gyfer arwain newidiadau cymhleth, ar adeg pan fwriedir lleihau'r cymorth adnoddau dynol canolog sydd ar gael;</li><li>• mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb yn rhagweithiol i ganlyniadau Arolwg Staff y GIG.</li></ul>

Mater	Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd
Partneriaeth ac ymgysylltu	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adeiladu ar y gwaith partneriaeth ac ymgysylltu da a welwyd gennym yn 2012, gyda datblygiadau mewn perthynas â Rhaglen y Bae Gorllewinol yn dangos ymrwymiad sylweddol i gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig a chynnydd tuag at hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae Rhaglen y Bae Gorllewinol yn enghraifft o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i weithio gyda phartneriaid i gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig;</li> <li>• mae trefniadau bwrdd rhaglen a llywodraethu wedi'u sefydlu;</li> <li>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu hanes cadarnhaol o waith ymgysylltu da â'r cyhoedd ac mae'n datblygu'r 'brand' 'You Tell Us';</li> <li>• ceir cydberthynas waith adeiladol â'r Cyngor Iechyd Cymuned;</li> <li>• dechreuir trafod sut y gall cyd-gynhyrchu helpu i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol;</li> <li>• nid yw'r gydberthynas rhwng profiad cleifion ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach a chynllunio gwasanaethau wedi'i datblygu eto.</li> </ul>
Ystadau ac asedau	<p>Mae'r strategaeth ystadau a gwaith cynllunio yn dda a cheir buddsoddiad sylweddol mewn gwaith datblygu cyfalaf, ond erys risgiau o ran ystadau a chyfarpar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae gwybodaeth strategol dda am gyflunio a defnyddio ystadau yn parhau i fod yn amlwg;</li> <li>• ceir buddsoddiad sylweddol mewn rhaglen datblygu cyfalaf fawr, yn enwedig ar gyfer safle ysbyty Treforys;</li> <li>• datblygwyd cynlluniau cyfalaf strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ond mae risgiau ynghlwm wrth waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a phrynu cyfarpar newydd.</li> </ul>

Yn seiliedig ar adolygiad o berfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, mae perfformiad o ran effeithlonrwydd ac ansawdd yn gymaradwy â gweddill Cymru, ond mae cyfraddau salwch staff yn uchel ac mae angen gwella o ran cael mynediad amserol i wasanaethau

**108.** Mae Aseiad Strwythuredig eleni wedi cynnwys dadansoddiad o ddata perfformiad sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaeth allweddol. Defnyddiwyd y data hwn i asesu'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau economaidd a hygyrch o ansawdd da i gleifion.

- 
- 109.** Dangosodd fy adolygiad o'r data fod perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn nifer o fesurau effeithlonrwydd yn gymaradwy â chyfartaleddau a thueddiadau Cymru gyfan, ond mae lle i wella, yn enwedig o ran gostwng cyfraddau salwch staff. Ymhlith ein canfyddiadau allweddol mae'r canlynol:
- Mae hyd arhosiad cyfartalog a chyfraddau llawdriniaeth ddydd a cholli apwyntiadau cleifion allanol yn cymharu â pherfformiad a thueddiadau Cymru gyfan yn nodweddiadol, ond ceir cyfle i wella ar y perfformiad hwn.
  - Gwnaed cynnydd i gynyddu canran y llawdriniaethau a gyflawnir ar yr un diwrnod o lawdriniaeth. Mae'r gyfradd hon, sef 72.4 y cant, yn well na'r cyfartaledd bellach.
  - Mae cyfradd salwch Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi parhau i gynyddu a hon yw'r uchaf o blith holl fyrddau iechyd Cymru.
- 110.** Mae perfformiad yn erbyn nifer o fesurau ansawdd hefyd yn gymaradwy â chyfartaledd Cymru ac mewn rhai achosion mae'n well:
- Mae cyfraddau MRSA a Clostridium Difficile wedi gostwng ac maent islaw cyfartaledd Cymru fesul 100,000 o'r boblogaeth.
  - Mae'r mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg, sef 103, ychydig uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig o 100 a dyma'r ail isaf yng Nghymru.
  - Mae perfformiad ar fwndeli strôc 1 a 2, er yn agos at gyfartaledd Cymru gyfan, yn amrywio ac ni chaiff y targed o 95 y cant ei gyflawni'n gyson. Fodd bynnag, mae perfformiad ar fwndeli 3 a 4 yn fwy cyson ac mae ymhlith y gorau.
- 111.** Mae angen i berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran gwasanaethau amserol a hygyrch wella, yn enwedig ar gyfer mynediad i wasanaethau canser a gofal heb ei drefnu, lle mae lefelau uwchgyfeirio 2 a 3 Llywodraeth Cymru yn gymwys yn y drefn honno. I grynhoi:
- mae perfformiad amseroedd aros dewisol yn well na byrddau iechyd eraill yng Nghymru, ond mae perfformiad wedi gwaethygu ac mae nifer y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos yn cynyddu (lefel uwchgyfeirio 1 Llywodraeth Cymru);
  - ni chyflawnir targedau mynediad i wasanaethau canser ac ar hyn o bryd mae perfformiad islaw cyfartaledd Cymru (lefel uwchgyfeirio 2 Llywodraeth Cymru);
  - nid yw perfformiad gofal heb ei drefnu wedi gwella ac, yn gyffredinol, dyma'r gwaethaf yng Nghymru (lefel uwchgyfeirio 3 Llywodraeth Cymru).

---

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull strategol o reoli presenoldeb ond mae lefelau salwch yn uchel ac mae angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn gostwng cyfraddau absenoldeb, sicrhau bod mwy o ffocws ar bresenoldeb a lles, a chynyddu hyder gweithredol mewn data

112. Mae lefelau salwch yn dal i fod yn uchel, yn wir dyma'r uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd. Mae cyfradd salwch y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'n gyflymach na chyfartaledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac ymddengys fod y 'bwllch' yn tyfu.
113. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd absenoldeb a lles o ddifrif ac mae wedi atgyfnerthu ei ddull strategol yn unol ag egwyddorion arfer da; eto i gyd, mae angen gweithredu polisi absenoldeb oherwydd salwch yn fwy cyson er mwyn ymdrin â lefelau salwch cyfredol.
114. Mae rheolwyr gwasanaethau o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth i reoli absenoldeb gan yr adran adnoddau dynol a bu rhai datblygiadau cadarnhaol iawn o fewn gwasanaethau Iechyd a Lles, ond ceir problemau gydag amseroldeb ymyriadau iechyd galwedigaethol. Yn ogystal, ni chaiff polisiâu presenoldeb ehangach eu gweithredu'n gyson gan reolwyr (e.e. ailddyrrannu), sy'n arwain at ganolbwyntio ar salwch yn hytrach na lles.
115. Ceir strwythurau da ar waith i fonitro absenoldeb er bod angen gwella hyder gweithredol mewn data salwch ac ystyried adroddiadau ehangach ar iechyd, lles a phresenoldeb.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ad-drefnu gwasanaethau cymunedol ond, ar hyn o bryd, nid yw'r gwaith o gynllunio gallu ac adnoddau na chynnwys rhanddeiliaid yn ddigon effeithiol i gefnogi llai o alw am wasanaethau aciwt a gwelliannau cynaliadwy o ran perfformiad gofal heb ei drefnu

116. Yn ystod y flwyddyn, gorffennodd fy nhîm fy ngwaith cyfunol ar reoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig a gynhaliwyd yn 2012 fel rhan o'm hadolygiadau gorfodol. Nododd fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd, ar y pryd, wedi cymryd camau cadarnhaol i gynyddu darpariaeth yn y gymuned ond roedd gormod o alw am wasanaethau aciwt dan bwysau o hyd. Yn benodol, nodais y canlynol:
  - roedd adrannau achosion brys yn dal i fod dan bwysau sylweddol ac roedd problemau gyda pherfformiad a llif cleifion;
  - mae cyfradd y derbyniadau brys ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau cronig wedi gostwng ond bu'r cynnydd a wnaed o ran gostwng cyfraddau derbyn lluosog, hyd arhosiad ac achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn gymysg;
  - gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau cymunedol a datblygu gofal sylfaenol y tu allan i oriau ond roedd angen gwneud mwy i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau aciwt;
  - ni chafodd mentrau ymwybyddiaeth y cyhoedd unrhyw effaith amlwg ar y galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu, bu cynnydd o ran datblygu un pwynt mynediad yn araf a gallai mwy o bobl elwa o raglenni addysg cleifion.

- 
- 117.** Roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu ei ddull strategol o drawsnewid gwasanaethau gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig, a ategwyd gan 'Gosod y Cyfeiriad'. Gwnaed cryn ymdrech i sefydlu seilwaith da ar gyfer goruchwylio'r broses o weithredu 'Gosod y Cyfeiriad', ond roedd angen i gynlluniau gweithredu lleol fod yn fanylach ac yn fwy unedig. Roedd cyfleoedd hefyd i atgyfnerthu'r trefniadau i wneud gwelliannau ym maes gofal heb ei drefnu a sicrhau mwy o gysondeb â chymau cysylltiedig i reoli chyflyrau cronig. Hefyd, gwelais fod lle i wella'r gwaith o reoli perfformiad drwy ganolbwyntio'n fwy ar fesurau ansawdd a pherfformiad system gyfan.
- 118.** Roedd arweinwyr clinigol mewn lle ac roedd y gwaith o ymgysylltu â staff a meddygon teulu yn gadarnhaol iawn. Roedd cynnal cyswllt, gwella morâl staff a sicrhau nad oedd ansawdd a diogelwch yn cael eu peryglu yn flaenoriaethau i'r Bwrdd Iechyd, o ystyried y lefelau uchel parhaus o alw am wasanaethau brys a'r pwysau ar wasanaethau o ganlyniad i hynny. Roedd heriau penodol yn wynebu staff achosion brys o ystyried y lefelau uchel o alw a'r pwysau ar staff a gallu ac adnoddau. Roedd mesurau cefnogi staff ar waith a nododd staff fod swyddogion gweithredol yn gefnogol ac yn deall y pryderon a'r materion a godwyd gan staff, Fodd bynnag, roedd angen gwella'r gwaith o gynllunio gallu ac adnoddau er mwyn ymdrin â nifer o risgiau allweddol yn ymwneud â'r gweithlu gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig, yn enwedig o ran staff achosion brys.
- 119.** Ar y cyfan, roedd staff wedi'u cymell ac yn benderfynol o weithio gyda chydweithwyr i gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol. Strategaeth y Bwrdd Iechyd fu cynnwys clinigwyr mewn penderfyniadau ynghylch materion ariannu ac ailgynllunio gwasanaethau anodd a wynebir ganddo. Fodd bynnag, hyd nes bod canlyniad Cynllun De Cymru yn hysbys a bod penderfyniad wedi'i wneud ar rwydwaith rhanbarthol gwasanaethau ysbytai yn y dyfodol, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn gwbl glir ynghylch ei weledigaeth na chynlluniau gweithlu.
- 120.** Hyd yn hyn, mae cryn dipyn o ffocws y sefydliad wedi bod ar wella ei adrannau achosion brys ei hun, yn hytrach na gwaith partneriaeth ehangach. Roedd hyn yn ddealladwy o ystyried perfformiad hanesyddol gwael yr adrannau hyn o ran amseroedd aros. Fodd bynnag, roedd ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i waith partneriaeth yn amlwg gydag, er enghraifft, arian gan yr awdurdod lleol ar gyfer timau adnoddau cymunedol yn Abertawe a storfeydd cyfarpar ar y cyd wedi'u hariannu drwy gyllidebau cyfunol. Hefyd, bu rhywfaint o waith cadarnhaol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru mewn perthynas â datblygu llwybrau a chydweithio â'r adrannau achosion brys pan fo galw uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy o waith strategol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar faterion fel uwchgyfeirio a dargyfeirio ambiwlansys.



---

**121.** Ers fy ngwaith maes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gymryd camau i adeiladu gallu ac adnoddau gwasanaethau cymunedol a gwella systemau a pherfformiad gofal heb ei drefnu. Dywed y Bwrdd Iechyd fod cynnydd wedi cael ei wneud mewn nifer o feysydd yn 2012-13 ond cydnabu nad yw hyn wedi arwain at welliant cynaliadwy na chyrraedd safonau gofal heb ei drefnu. Mae rhaglen gwella gofal heb ei drefnu fanwl ar waith ar gyfer 2013-14, sy'n cydnabod disgwyliadau Gweinidogol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb system gyfan, a chroesgyfeirio camau gweithredu â ffrydiau gwaith cenedlaethol y Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu a sefydlwyd yn 2013.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda fyrdymor glir ar gyfer rhagnodi gofal sylfaenol ac mae ei drefniadau o ran rhagnodi cymorth wedi'u rheoli'n dda. Fodd bynnag, mae angen cynllun strategol tymor hwy ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn achub ar gyfleoedd sy'n bodoli i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd rhagnodi.

**122.** Mae fy ngwaith ar rhagnodi gofal sylfaenol wedi nodi bod gan y Gyfarwyddiaeth Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau Integredig (IPMM) gynllun blynyddol integredig sydd wedi'i ddatblygu'n dda sy'n llywio camau gweithredu ar gyflawni cynllun arbedion ar gyfer y flwyddyn ac yn pennu ffocws iddo. Mae'r cynllun yn gyson â blaenoriaethau strategol, fel cefnogi pobl oedrannus fregus, ac mae'n gysylltiedig ag anghenion iechyd cleifion, er enghraifft rheoli COPD a chlefyd cardiofasgwlaidd. Mae gweithredu canllawiau rhagnodi cenedlaethol a thargedu'r defnydd o amrywiaeth o gyffuriau hefyd yn rhan allweddol o waith cynllunio. Tra bod gwaith ad-drefnu gwasanaethau ehangach wedi cyfyngu ar y potensial i ddatblygu cynllun strategol tymor hwy yn flaenorol, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod y bydd hyn yn angenrheidiol wrth fynd ymlaen, er mwyn helpu i gynnal gwelliannau rhagnodi rhesymol.

**123.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cynhwysfawr, cadarn ac amserol ar y defnydd o gyffuriau a ddefnyddir yn effeithiol i dargedu ymyriadau, gwella rhagnodi rhesymol a chefnogi'r gwaith o flaenoriaethu a chyflawni cynlluniau gweithredol. Tra bod gan Gynllun Rheoli Meddyginiaethau Integredig drafft 2013-14 saith ffrwd waith, y mae pob un ohonynt yn cynnwys camau y gellir eu nodi, nid oes gan lawer dargedau mesuradwy â cherrig milltir allweddol, sy'n golygu na ellir monitro mesurau llwyddiant yn effeithiol.

**124.** Mae rolau a chyfrifoldebau rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol yn glir a chaiff cymorth rhagnodi gofal sylfaenol ei reoli'n dda. Mae lefel gyffredinol y cymorth rhagnodi gofal sylfaenol a ddarperir o fewn y Bwrdd Iechyd ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, er bod rhywfaint o amrywiad yn y tair ardal. Ceir nifer o gyfarfodydd rheolaidd a chyfleoedd hyfforddi parhaus i feddygon teulu a'u staff, ond yn wahanol i rai sefydliadau eraill, nid oes gan y Bwrdd Iechyd wefan rheoli meddyginiaethau eto, sydd ar gael i'r gymuned ehangach o ragnodwyr a'r cyhoedd.

- 
- 125.** Mae gan y Bwrdd Iechyd Fformiwlâu Lleol a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar y cyd â chyflwyno rhyngwyneb meddalwedd newydd ar gyfer fformiwlâu ar-lein. Cydnabyddir bod y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth fformiwlâu yn heriol ac er bod pocedi o arfer effeithiol, mae hwn yn faes y mae angen ei atgyfnerthu ymhellach. Mae fferyllwyr effeithiolrwydd clinigol wedi gweithio gyda chlinigwyr gofal eilaidd a chynradd i ddatblygu cyfres o brotocolau gofal a rennir sydd ar gael ar borth meddygon teulu y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod ansawdd crynodebau rhyddhau wedi bod yn gwella er i feddygon teulu ddweud wrthym fod ansawdd gwybodaeth rhyddhau meddygol yn wael weithiau.
- 126.** Mae gwariant y Bwrdd Iechyd uwchlaw'r cyfartaledd yn rhai o'r meysydd a ddiffiniwyd gan Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, ond ymddengys ei fod yn cynnal costau rhesymol, sy'n berthynol i fyrddau iechyd eraill. Fodd bynnag, mae lefel rhagnodi cyffuriau sy'n ymwneud â maeth a gwaed yn cyfateb i'r uchaf yng Nghymru. Er y gall y lefel hon o ragnodi fod yn gyfiawn, mae angen deall y rhesymau sy'n sail i'r gwariant hwn.
- 127.** Rydym wedi amcangyfrif, drwy wella perfformiad rhagnodi ymhellach, fod potensial i arbed hyd at £1.6 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion. Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth asesu'r graddau y gellir cyflawni hyn, gan ddefnyddio profiad ac amgylchiadau lleol, a blaenoriaethu ei gwaith yn briodol.
- 128.** Yn bwysig, prin yw'r dystiolaeth o gofnodi adweithiau andwyol i gyffuriau (ADR) a digwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaeth mewn ffordd gyson a chadarn. Gostyngodd cyfraddau adrodd ADR y Bwrdd Iechyd rhwng 2010-11 a 2011-12, gan adlewyrchu'r duedd am i lawr barhaus ledled Cymru. Mae'r sefyllfa leol hon yn bodoli er gwaethaf hyfforddiant staff achlysurol, penodi Hyrwyddwyr Cerdyn Melyn yn ddiweddar<sup>2</sup>, a gweithgareddau grŵp diogelwch cleifion. Fel rhan o'i ddull strategol o wella systemau rhagnodi gofal sylfaenol, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wella cyfraddau adrodd ADR a dylai ystyried pa adnoddau y mae angen eu neilltuo i wella'r sefyllfa bresennol.

---

<sup>2</sup> Caiff y Cynllun Cerdyn Melyn ei redeg gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol (CHM) ac fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am sgil-ffeithiau a amheuir neu adweithiau andwyol i feddyginiaeth.

# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Amlinelliad o Waith Archwilio 2013	Mawrth 2013
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehefin 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2013
Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Gorffennaf 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2013
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusenol	Medi 2013
Barn ar Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusenol	Hydref 2013
Memorandwm Datganiadau Ariannol	Rhagfyr 2013 i reolwyr
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Rheoli Ariannol - Asesiad strwythuredig	Medi 2013
Rheoli salwch	Medi 2013
Gwaith dilynol ar reoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu	Hydref 2013
Adfer data wrth gefn	Hydref 2013
Rhagnodi ym maes gofal sylfaenol (2012)	Rhagfyr 2013
Asesiad Strwythuredig 2013	Ionawr 2014

---

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

<b>Adroddiad</b>	<b>Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig</b>
Asesiad Strwythuredig 2013: sesiwn Datblygu'r Bwrdd	Chwefror 2014
Adolygiad o arbenigedd: orthopedeg (2012)	Mawrth 2014
Codio clinigol (2013)	Ebrill 2014
Nyrsio cymunedol (2013)	Gorffennaf 2014
Gwasanaethau arlwy – Adolygiad Dilynol (2013)	Mawrth 2014
Staffio wardiau: gwaith meincnodi dilynol (2013)	Fe'i disodlwyd ym mis Tachwedd 2013 gan waith arolwg technolegau (peilot Sensemaker)

# Atodiad 2

---

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £434,863 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad.

Wedi'i gynnwys yn y ffi a nodir uchod, mae'r gwaith archwilio a wnaed ar y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau a Rennir.

# Atodiad 3

---

## Gwaith cyfrifon ariannol: blaenoriaethau archwilio

Mae fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 yn nodi'r prif faterion a blaenoriaethau ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2012-13. Mae'r tabl isod yn rhestru'r blaenoriaethau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy.

### Adroddiadau archwilio ariannol

Mae'r **amserlen** ar gyfer llunio ac ardystio'r **cyfrifon blynyddol** yn dal i fod yn heriol. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer paratoi'r cyfrifon a sicrhau y darperir papurau gwaith digonol i'w harchwilio yn amserol.

Caiff y **cyfrifon blynyddol** eu llunio o dan **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a llawlyfr Cyfrifon y GIG**. Rhaid i'r Bwrdd lechyd feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r **gofynion** hyn, gan sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau ac yn sicrhau y nodir risgiau a materion ac yr eir i'r afael â hwy yn briodol.

Y llynedd cyflwynwyd adroddiad i'r rheolwyr ar rai mân feysydd lle y gellid gwella systemau, gan gynnwys datgeliadau cyflogau Hutton a bywydau asedau ar y gofrestr asedau sefydlog. Ynghyd â hyn, mae'r **Prisiwr Dosbarth** wedi ailbriso ystad y Bwrdd lechyd ar 31 Mawrth 2013.

Ar 1 Mehefin 2012, trosglwyddodd rhai gwasanaethau cymorth o'r Bwrdd lechyd i Bartneriaethau **Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru**. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd roi cyfrif yn briodol am y trosglwyddiad yn ei gyfrifon blynyddol.

Mae gan y Bwrdd lechyd ddyletswydd i sicrhau bod **cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol** cadarn ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.

### Gwaith a wnaed a'r canlyniad

Gwnaethom adolygu, trafod a chytuno ar yr amserlen cau i lawr fanwl ar gyfer y datganiadau ariannol a'r broses archwilio gyda rheolwyr. Cafodd y datganiadau ariannol archwiliedig terfynol eu cwblhau o fewn y terfynau amser gofynnol.

Adolygwyd y datganiadau ariannol drafft er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag IFRS a Llawlyfr Cyfrifon y GIG. Gwnaethom hefyd adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn gweld a oedd yn bodloni gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gwybodaeth arall a oedd yn hysbys i ni o ganlyniad i'n gwaith archwilio. Gwnaethom gyflwyno canfyddiadau ein harchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio ar 3 Mehefin 2013 a chadarnhawyd cydymffurfiaeth yn y farn archwilio ddiamod.

Gwnaethom drafod y meysydd hyn ar gam cynnar gyda rheolwyr ac yn benodol adolygwyd y meysydd hyn fel rhan o'n dull archwilio er mwyn sicrhau bod cyfrif amdanynt a'u bod wedi'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

Gwnaethom adolygu'r ffurflenni trosglwyddo a oedd yn crynhoi'r adnoddau a drosglwyddwyd i'r Bartneriaeth a chadarnhawyd bod cyfrif priodol wedi'i roi am y trosglwyddiad.

Adolygwyd y rheolaethau mewnol a darparwyd barn ddiamod ar reoleidd-dra ar y datganiadau ariannol.

---

### Adroddiadau archwilio ariannol

**Dyletswydd ariannol** y Bwrdd Iechyd yw cadw gwariant blynyddol o fewn terfyn adnoddau rhagnodedig. Bydd y targed statudol yn gymwys i reffeniw a chyfalaf. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau rheolaeth ariannol dda yn ystod y cyfnod er mwyn cyflawni ei dargedau ariannol ei hun ar gyfer 2012-13. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn darogan y bydd yn cyflawni ei dargedau statudol ar 31 Mawrth 2013.

Mae angen **trefniadau llywodraethu ariannol cryf** ar y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei gyllid yn unol â'r canllawiau yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### Gwaith a wnaed a'r canlyniad

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei holl dargedau ariannol ar gyfer 2012-13 a rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol.

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'n gwaith archwilio.



WALES **AUDIT** OFFICE  

---

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)